OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Clirffordd Llwybr Coch) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym* | *27 Chwefror 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A466, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Clirffordd Llwybr Coch) 2020 a daw i rym ar 27 Chwefror 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A466 Llundain i Abergwaun.

### Gwaharddiad

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A466 Trunk Road (Newhouse Roundabout to High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire) (Red Route Clearway) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 February 2020* |
| *Coming into force* | *27 February 2020* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A466 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), and after consultation with the Chief Officer of Gwent Police, make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A466 Trunk Road (Newhouse Roundabout to High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire) (Red Route Clearway) Order 2020 and it comes into force on 27 February 2020.

**2.** In this Order:

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A466 London to Fishguard Trunk Road.

### Prohibition

**3.** Except as provided in article 4, no person may cause or permit any vehicle to stop on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

(**1**) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and 2(2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18. Section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Esemptiadau**

**4.** Nid oes dim yn erthygl 3 yn gwahardd cerbyd rhag stopio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd;

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**);

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; a,

(d) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fydd yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

**Dirymu**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (Cas-gwent, Gwent) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1977(**3**) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(**3**) O.S. 1977/138

**Exemptions**

**4.** Nothing in article 3 prohibits a vehicle stopping on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for as long as may be necessary to enable:

(a) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operation;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road;

(iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(**2**);

(b) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(c) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; and,

(d) the vehicle to stop when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;

(iii) is prevented from proceeding; or

(iv) is acting upon the direction, or with the permission of, a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

**Revocation**

**5.** The Trunk Road (Chepstow, Gwent) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 1977(**3**) is revoked insofar as it relates to the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

(**2**) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

(**3**) S.I. 1977/138

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Chwefror 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 25 February 2020

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darn o’r gefnffordd sy’n cynnwys y cyfan o gerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Newhouse a Chylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy.

**SCHEDULE**

The length of the trunk road comprising the complete circulatory carriageways of Newhouse Roundabout and High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Newhouse Roundabout to its junction with the southern side of High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A466 (CYLCHFAN NEWHOUSE I GYLCHFAN HIGH BEECH, CAS-GWENT, SIR FYNWY) (CLIRFFORDD LLWYBR COCH) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 27 Chwefror 2020.

Effaith y Gorchymyn yw creu clirffordd llwybr coch ar y darnau o gefnffordd yr A466 yng Nghas-gwent, Sir Fynwy a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 26 Chwefror 2020, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell a Hyb Cymunedol Cas-gwent, Manor Way, Cas-gwent NP16 5HZ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1364593.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 25 Chwefror 2020, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A466 TRUNK ROAD (NEWHOUSE ROUNDABOUT TO HIGH BEECH ROUNDABOUT, CHEPSTOW, MONMOUTHSHIRE) (RED ROUTE CLEARWAY) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 27 February 2020.

The effect of the Order is to create a red route clearway on the lengths of the A466 trunk road at Chepstow, Monmouthshire described in the Schedule to this Notice.

During a period of 6 weeks from 26 February 2020, a copy of the Order and plan may be inspected during normal opening hours at Chepstow Library and Community HUB, Manor Way, Chepstow NP16 5HZ or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1364593.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
b. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 25 February 2020, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n cynnwys y cyfan o gerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Newhouse a Chylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy.

## SCHEDULE

The length of the trunk road comprising the complete circulatory carriageways of Newhouse Roundabout and High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Newhouse Roundabout to its junction with the southern side of High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire.